

Effaith COVID-19

Sgiliau – canfyddiadau cynnar

Mehafin 2020

Mae Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau yn cynnal adolygiad parhaus o effeithiau pandemig covid-19 ar feysydd o fewn ei gylch gwaith. Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau cynnar iawn y Pwyllgor ynghylch y sector sgiliau, ac yn canolbwyntio'n benodol ar iechyd a lles prentisiaid, a'r pryder bod cynnydd mawr mewn diweithdra ymhlith pobl ifanc ar y gorwel.

1. Hoffai'r Pwyllgor ganmol yr holl brentisiaid iechyd a Gofal Cymdeithasol am y rôl allweddol y maent yn ei chwarae yn yr ymdrech i reoli effeithiau'r pandemig. Wrth gasglu tystiolaeth, mae'r Pwyllgor wedi clywed pa mor galed y mae prentisiaid yn gweithio a'r rhan hanfodol y maent yn ei chwarae yn y modd y mae Cymru'n ymateb i'r coronafeirws. Fodd bynnag, o ystyried y llwyth gwaith cynyddol hwn ac amgylchedd gwaith y prentisiaid, mae'r pwyllgor yn pryderu am iechyd a lles prentisiaid.

2. At hynny, mae gan y Pwyllgor bryderon sylweddol am yr hyn y mae'n ei ystyried yn un o heriau pennaf y pandemig llethol hwn yn y tymor hir, sef y cynnydd dramatig tebygol mewn diweithdra ymhlith pobl ifanc; cynnydd sydd – heb gamau gan Lywodraeth Cymru – yn bygwth creithio a rhwystro cenedlaethau o bobl ifanc o ran cael gafael ar waith, a llethu'r adferiad cenedlaethol. Bydd gweld seilwaith sgiliau Cymru yn dirywio i unrhyw raddau ond yn gweud yr argyfwng hwn yn waeth i bobl ifanc ac oedolion sydd eisiau ailhyfforddi neu gynyddu eu sgiliau.

3. Ar **1 Mehefin** clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Dafydd Evans o Colegau Cymru, Jeff Prothero o Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru a'r Athro



Ewart Keep o'r Adran Addysg ym Mhrifysgol Rhydychen, am effeithiau'r pandemig ar sgiliau. Canolbwyntiodd y cyfarfod yn benodol ar brentisiaid a'u darparwyr hyfforddiant. Mae cynnwys yr adroddiad byr hwn yn seiliedig i raddau helaeth ar y dystiolaeth o'r sesiwn honno.

Iechyd a lles prentisiaid

4. Bydd y gwaith ychwanegol sy'n cael ei wneud gan brentisiaid o dan amodau sy'n peri straen eithriadol, yn cael effaith andwyol ar iechyd meddwl llawer ohonynt. Roedd y Pwyllgor yn falch o glywed y teimlai Jeff Protheroe fod iechyd meddwl yn cael mwy a mwy o sylw ar agenda Llywodraeth Cymru.

5. Er bod y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn wynebu'r her o gael ei lethu, mae'r Pwyllgor yn ymwybodol bod sectorau eraill yn wynebu'r her i'r gwrthwyneb yn llwyr, gan brofi gostyngiad yn y galw am lafur. Nododd Dafydd Evans a Jeff Prothero fel ei gilydd fod nifer sylweddol o brentisiaid wedi cael eu rhoi ar ffyrlo. Bydd cael eu rhoi ar ffyrlo, a'r dyfodol ansicr y mae nifer o brentisiaid yn ei wynebu ar hyn o bryd, yn cael effaith andwyol hefyd ar iechyd a lles prentisiaid.

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru roi gwybod i'r Pwyllgor a yw'n casglu data yn ganolog ar iechyd meddwl a lles prentisiaid. Os nad yw hynny'n digwydd, sut mae Llywodraeth Cymru yn monitro iechyd meddwl a lles prentisiaid?

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru roi gwybod i'r Pwyllgor pa gamau y mae'n eu cymryd i gefnogi iechyd a lles prentisiaid sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol – yn ogystal â phrentisiaid sydd wedi cael eu rhoi ar ffyrlo – trwy'r gwahanol heriau y maent yn eu hwynebu.

Diweithdra ymysg pobl ifanc

6. Roedd yr Athro Ewart Keep yn rhybuddio'r Pwyllgor am fater o bwys mawr sydd ar y gorwel, sef diweithdra ymysg pobl ifanc, wrth i ddegau o filoedd o fyfyrwyr colegau a phrifysgolion raddio'r haf hwn. Mae'r bobl ifanc hyn yn wynebu marchnad lafur sydd wedi profi gostyngiad yn y galw, gyda thraean o weithlu Cymru wedi'u rhoi ar ffyrlo, neu'n manteisio ar gynllun cymorth Llywodraeth y DU i bobl hunangyflogedig. Dywedodd yr Athro wrth y Pwyllgor, y bydd hynny'n golygu ei bod bron yn anochel y bydd cynnydd eithaf sylweddol mewn pobl ifanc nad ydyn nhw mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant.

7. Roedd yr Athro hefyd wedi dweud wrth y pwyllgor, mewn marchnad lafur lle mae llawer o ymgeiswyr a'r lleoedd yn gymharol brin, un o'r pethau allweddol y maent yn chwilio amdano yw profiad gwaith perthnasol, ac mae pobl ifanc sydd heb hynny ar eu colled, gydag oedolion yn bachu'r swyddi. At hynny, rhoddodd wybod i'r Pwyllgor, mewn dirwasgiadau yn y gorffennol mai'r hyn oedd yn allweddol i bobl ifanc oedd bod yna ddarpariaeth profiad gwaith a chymorth wrth bontio i fyd gwaith, ond bod profiad gwaith yn gwbl hanfodol. Aeth ymlaen i ddweud bod cyfnodau o ddiweithdra yn crebachu rhagolygon gyrfa pobl ifanc, felly mae'n rhaid gweithio i osgoi neu i ostwng hynny gymaint â phosibl.

8. Mae'r Pwyllgor yn ystyried bod hynny'n un o'r heriau mwyaf sylweddol a sylfaenol sy'n wynebu Cymru yn y tymor canolig, wrth iddi geisio adferiad ar ôl y pandemig hwn. Mae'r effaith niweidiol ar ragolygon cyflogaeth cenedlaeth o bobl ifanc yn bygwth eu ffyniant a'u lles, a byddai'n arafu'r adferiad cenedlaethol.

Argymhelliad 3. Rhaid i Lywodraeth Cymru weithredu i sicrhau bod cyfleoedd profiad gwaith strwythuredig o ansawdd uchel – yn enwedig i bobl o gefndiroedd difreintiedig – yn rhan o gynllun adfer Cymru.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru roi gwybod i'r Pwyllgor sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r her ddifrifol iawn yn sgil diweithdra ymhlith pobl ifanc, a beth yw ei hasesiad o'r adnoddau y byddai eu hangen.

Seilwaith Hyfforddi a chyfleoedd gwaith

9. Mae Cynllun Cadernid covid-19 ar gyfer y Sector Ôl-16 Llywodraeth Cymru'n nodi bod risg y bydd y seilwaith hyfforddi'n dirywio. Gwnaeth Jeff Prothero a Dafydd Evans roi gwybod i'r Pwyllgor eu bod yn bryderus iawn am y toriadau yng nghyllideb arfaethedig 2020-21 ar gyfer prentisiaethau a chymorth cyflogadwyedd, ac effaith hyn ar eu gallu i ddarparu hyfforddiant a chynnal yr isadeiledd a fydd mor hanfodol i'r adferiad cenedlaethol. Dywedodd Mr Evans wrth y Pwyllgor y byddai toriad o 10% yng ngwerth contract y flwyddyn nesaf yng Ngogledd Cymru, yn arwain at doriad enbyd o 50% yn y myfyrwyr newydd fydd yn gallu dechrau cyrsiau'r flwyddyn academaidd nesaf.

10. Yn ogystal â'r ffaith na fyddai'r sector yn gallu hyfforddi cymaint o bobl, dywedodd Mr Evans y byddai toriad o 10% yn y gyllideb yn arwain yn ddiamheuol hefyd at golli swyddi o fewn y sector. Ategwyd hyn gan Jeff Prothero o Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, a ddywedodd ei fod o'r farn, gyda gostyngiad sylweddol yn y cyllid a geir maes o law, y wynebir colli swyddi. Os

byddai'r swyddi'n cael eu colli, rhybuddiodd Mr Evans a Mr Protheroe na fyddai'n rhwydd **gwyrddroi hynny**.

11. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â Llywodraeth Cymru bod perygl y bydd y seilwaith hyfforddi yn dirywio ac, os bydd hynny'n digwydd, y bydd yn anodd iawn adfer y sefyllfa. Gan hynny, mae'r Pwyllgor yn gofidio'n arbennig am y toriad ymddangosiadol yn lefelau ariannu'r rhaglen brentisiaeth, a chyflogadwyedd a sgiliau yn y Gyllideb Atodol Gyntaf ar adeg pan fydd darparu sgiliau yn sylfaenol o ran yr adferiad cenedlaethol.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru lunio cynlluniau cadarn i gefnogi'r sector sgiliau.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru nodi ar frys faint o gyllid fydd ar gyfer prentisiaethau dros y flwyddyn nesaf gan gynnwys nodi'r symiau y bwriedir eu caffael o gyllid yr UE, a "Chronfa Frwydro" covid.

Hyfforddiant mewn marchnad swyddi llai sicr a'r agenda gwaith teg

12. Roedd yr Athro Keep yn **mynegi pryder** y byddai economi ansicr yn arwain cyflogwyr i ystyried cynyddu 'llafur fesul awr', a chontractau oriau sero ansefydlog ac ansicr. Mae'r Athro'n pryderu y byddai'r newidiadau hynny yn golygu na fydd cyfleoedd dysgu strwythuredig ar gael. Teimlai'r Athro fod yna gwestiwn pwysig iawn ynghylch y modd y mae'r Llywodraeth yn cysylltu sgiliau â datblygu economaidd, cymorth i fusnesau, gwella busnesau ac agenda gwaith teg.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru fynegi ei barn ar y rhybudd y bydd cynnydd mewn llafur fesul awr yn golygu gostyngiad mewn hyfforddiant sgiliau.

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu'r modd y bydd yn cysylltu sgiliau â datblygu economaidd, cymorth i fusnes, gwella busnesau a'r agenda gwaith teg.